| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | Cabinet |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | 13 Rhagfyr 2016 |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol:** | Y Cynghorydd Julian Thompson-Hill - Aelod Arweiniol Cyllid, Cynllun Corfforaethol a Pherfformiad<br>Alan Smith - Pennaeth Gwella Busnes a Moderneiddio |
| **Awdur yr Adroddiad:** | Vicki Robarts – Rheolwr Tîm Cynllunio Strategol |
| **Teitl:** | **Adroddiad Perfformiad Cynllun Corfforaethol Chwarter 2 - 2016/17** |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1 Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno diweddariad ar ddarpariaeth Cynllun Corfforaethol 2012-17 ar ddiwedd chwarter 2 2016/17.

1.2 Mae Atodiad 1 yn rhoi Crynodeb Gweithredol sy'n cynnwys cyflawniadau ac eithriadau allweddol.

1.3 Mae Atodiad 2 yn cynnwys yr adroddiad chwarterol llawn a gynhyrchir gan y System Rheoli Perfformiad Verto, gan ganolbwyntio ar yr eithriadau yn unig.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1 Darparu gwybodaeth am gynnydd y Cyngor ar ddiwedd chwarter 2, 2016-17 o ran cyflawni canlyniadau'r Cynllun Corfforaethol.

2.2 Mae adrodd yn ôl yn rheolaidd yn un o ofynion monitro angenrheidiol y Cynllun Corfforaethol er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn gweithredu ei ddyletswydd i wella.

2.3 Rydym yn monitro ein perfformiad yn rheolaidd ac yn cyflwyno adroddiadau bob chwarter i gyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio a'r Cabinet ac yn llunio Adroddiad Perfformiad Blynyddol i werthuso cynnydd.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Argymhellir bod y Pwyllgor yn defnyddio'r adroddiad hwn i nodi meysydd sy'n benodol i'r gwasanaeth (neu feysydd gwaith) a fyddai'n elwa o archwilio manwl i wella canlyniadau i ddinasyddion a pherfformiad cyffredinol y Cyngor, ac yn hwyluso i gyflawni'r Cynllun Corfforaethol.

## 4. Manylion yr Adroddiad

4.1 Mae'r Crynodeb Gweithredol (Atodiad 1) yn cynnwys manylion cyflawniadau yn ogystal ag eithriadau allweddol.

4.2 Mae Chwarter 2, Adroddiad Perfformiad 2016-17 (Atodiad 2) yn edrych ar Gynllun Corfforaethol 2012-17 ac yn rhoi asesiad sy'n seiliedig ar dystiolaeth o'r sefyllfa bresennol.

4.3 Mae eithriadau wedi cael eu hamlygu fel a ganlyn:

- 'Coch' ar gyfer mesurau neu ddangosyddion sydd wedi eu nodi fel 'Blaenoriaeth ar gyfer Gwella', neu
- 'Lwyd' lle mae angen eglurhad ar gyfer y data.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

5.1 Mae'r adroddiad hwn am ein cynnydd wrth ddarparu'r Cynllun Corfforaethol. Dylai unrhyw benderfyniad a wneir gyfrannu at ddarpariaeth lwyddiannus o'r Blaenoriaethau Corfforaethol.

**6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

6.1 Mae Cynllun Corfforaethol 2012-17 yn gosod faint o arian yn ychwanegol y mae'r Cyngor yn bwriadu ei fuddsoddi ym mhob blaenoriaeth gorfforaethol dros y pum mlynedd nesaf. Rhagwelir y bydd y Cynllun Corfforaethol yn cael ei gyflwyno gan ddefnyddio'r buddsoddiad ychwanegol hwn ac o fewn cyllidebau presennol.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les? Gellir lawrlwytho adroddiad yr Asesiad o Effaith ar Les oddi ar y wefan, a dylai gael ei gynnwys fel atodiad i'r adroddiad hwn.**

7.1 Cynhaliwyd AEC ar y Cynllun Corfforaethol ac fe'i cyflwynwyd i'r Cyngor ar 9 Hydref 2012. Nid oes angen asesiad arall gan na fydd yr argymhellion yn yr adroddiad hwn yn cael effaith uniongyrchol ar ein staff nac ar ein cymunedau.

**8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda'r Pwyllgorau Archwilio ac eraill?**

8.1 Daw'r wybodaeth sy'n angenrheidiol i lunio'r adroddiad hwn o wasanaethau, ac mae'r eithriadau drafft wedi'u trafod a'u dosbarthu i alluogi'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth i gymryd unrhyw gam unioni y maent yn ystyried yn angenrheidiol er mwyn llunio'r adroddiad hwn ar gyfer Archwilio Perfformiad a'r Cabinet.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

9.1 Nid oes angen datganiad Prif Swyddog Cyllid ar gyfer yr adroddiad hwn.

**10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn wneud i'w lleihau?**

10.1. Mae gennym fframwaith rheoli perfformiad cadarn, proses Herio Perfformiad Gwasanaethau cadarn a Phwyllgor Archwilio Perfformiad cryf.

10.2 Nid oes unrhyw risg benodol yn gysylltiedig â'r adroddiad hwn. Swyddogaeth y Gofrestr Risg Corfforaethol a'r Gofrestr Risg Gwasanaethau yw dynodi (a rheoli) digwyddiadau posibl o risg a allai olygu na fyddai'r cyngor yn gallu cyflawni ei Gynllun

Corfforaethol.

**11. Pŵer i wneud Penderfyniad**

11.1. Mae rheoli perfformiad a monitro yn elfen allweddol o Raglen Cymru ar gyfer Gwella, sydd wedi ei thanategu gan ofynion statudol Deddf Llywodraeth Leol 1999 a Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

11.2 Mae Adran 7 o Gyfansoddiad y Cyngor yn amlinellu pwerau a dyletswyddau Archwilio mewn perthynas ag archwilio perfformiad yr Awdurdod.